

Y SYSTEM REOLI INTEGREDIG TROSEDDWYR YNG NGHYMRU AR ÔL Y DIWEDDARIAD:

**BARN YMARFERWYR AM Y
SYSTEM REOLI INTEGREDIG
TROSEDDWYR**

**Crynodeb Gweithredol
(Cymraeg a Saesneg)**

**Mike Maguire, Janine Jackson, Kate Williams
(Prifysgol De Cymru)
Frederick Cram (Prifysgol Caerdydd)
Martina Feilzer (Prifysgol Bangor)**



Cyhoeddwyd gan Canolfan Troesedd a Cyflawnder Chymdeithasol Cymru

Published by the Welsh Centre for Crime and Social Justice.

Cyhoeddwyd gan Canolfan Troesedd a Cyflawnder Chymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru, Pontyrid. ISBN: 978-1-909838-74-1

Hawlfraint © Canolfan Troesedd a Cyflawnder Chymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru, 2024

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwyr.

Mae Mike Maguire, Janine Jackson, Kate Williams, Frederick Cram ac Martina Feilzer wedi hawlio eu hawl nhw i gael eu hadnabod fel awduron y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Published by the Welsh Centre for Crime and Social Justice, University of South Wales, Pontypridd. ISBN: 978-1-909838-74-1

Copyright © Welsh Centre for Crime and Social Justice, University of South Wales, 2024

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced without written permission from the publishers.

Mike Maguire, Janine Jackson, Kate Williams, Frederick Cram and Martina Feilzer have asserted their right to be identified as the authors of this work in accordance with the Copyright, Designs and Patents Act 1988.

CYNNWYS

Cyflwyniad	4
Safbwytiau cyffredinol am y system reoli integredig troseddwyr a'r diweddariad	4
Ymarfer gweithredol	5
<i>Rheolaeth leol</i>	5
<i>Cydleoli</i>	5
<i>Y system sefydlog - hyblyg - rhydd</i>	6
<i>Cysylltiadau ac ymweliadau</i>	7
<i>Darparu gwasanaethau</i>	7
<i>Ymyriadau</i>	8
<i>Cydymffurfio a thorri amodau</i>	8
Data a pherfformiad	8
Ymatebion ac ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth	9
Casgliadau	10

CYFLWYNIAD

Prif nod yr astudiaeth hon oedd edrych ar safbwytiau a phrofiadau swyddogion prawf a swyddogion yr heddlu sy'n gweithio ym maes rheoli troseddwyr integredig yng Nghymru ar lefel leol yn 2023. Y cynllun cychwynnol oedd archwilio effeithiau 'diweddarriad cenedlaethol' 2021, set o ddiwygiadau a wnaed yn dilyn adroddiad hollbwysig gan y Cyd-Arolygiaethau. Diben hyn oedd ceisio cryfhau llywodraethu'r system reoli integredig troseddwyr a chreu mwy o gysondeb rhwng meysydd, gan gyflwyno rheolau llymach ynglŷn â dewis cyfranogwyr, cofnodi data mwy cywir a nifer o fesurau perfformiad. Fodd bynnag, wrth i'r astudiaeth fynd yn ei blaen, cafodd ei hehangu i gynnwys amrywiaeth ehangach o bynciau yn ymwneud ag arferion lleol. Roedd yn seiliedig ar gyfweliadau gyda 23 o reolwyr ac ymarferwyr rheng flaen o bob rhan o Gymru. Er bod y sampl yn cynnwys amrywiaeth dda o oedrannau a phrofiad, roedd yn gymharol fach ac nid ar hap, felly ni ellir ystyried bod y canlyniadau'n gynrychioliadol o'r holl staff.

Yn gyntaf, mae'r adrannau canlynol yn crynhoi ein canfyddiadau ynglŷn â barn gyffredinol y cyfranogwyr am y system reoli integredig troseddwyr, yna eu sylwadau am agweddau penodol ar bolisi ac arfer gweithredol y system reoli integredig troseddwyr, gan gynnwys newidiadau a gyflwynwyd yn y diweddarriad. Dilynir hyn gan drosolwg ar ganfyddiadau staff o ymatebion cyfranogwyr i'r system reoli integredig troseddwyr ac ymgysylltiad â'r system, ac yn olaf, crynodeb o'r negeseuon allweddol sy'n ymddangos fel pe baent yn deillio o'r ymchwil.

SAFBWYNTIAU CYFFREDINOL AM Y SYSTEM REOLI INTEGREDDIG TROSEDDWYR A'R DIWEDDARIAD

Ar y cyfan, roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol iawn. Roedd mwyafrif helaeth y rhai a gyfwelwyd yn frwd dros y system reoli integredig troseddwyr yn gyffredinol, ac yn fodlon ar y cyfan â'r newidiadau a ddaeth yn sgil y diweddarriad.

Nodweddion y system reoli integredig troseddwyr a dynnwyd sylw atynt fwyaf fel rhai allweddol i'w heffeithiolrwydd oedd gweithio mewn partneriaeth agos a rhannu gwybodaeth yn amserol. Dywedwyd bod y rhain wedi galluogi'r heddlu a'r gwasanaeth prawf i fod yn ymwybodol yn gyflymach o faterion o bryder, eu deall yn well ac ymateb yn fwy effeithiol iddynt, mewn llawer o achosion trwy weithredu ar y cyd neu mewn modd cydgysylltiedig. Dywedwyd bod cydleoli timau o'r heddlu a'r gwasanaeth prawf yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn galluogi hyn.

Pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd o'r gwasanaeth prawf hefyd fod y system reoli integredig troseddwyr yn rhoi mwy o amser, lle a chyfle iddynt fod yn hyblyg a chreadigol yn eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth na goruchwyliaeth safonol, gan gynyddu'r posibilrwydd ohonynt yn 'ymgysylltu'.

Dywedwyd mai prif fantais y diweddarriad oedd yr eglurder ychwanegol a roddwyd i nodau a blaenoriaethau'r system reoli integredig troseddwyr, tra bod y categorïau sefydlog - hyblyg - rhydd wedi dod â mwy o gysondeb rhwng meysydd wrth ddewis cyfranogwyr ac mewn disgwyliadau sylfaenol o ran sut i drefnu goruchwyliaeth ar lefel leol. Nodwyd hefyd bod y newidiadau wedi dod law yn llaw â mwy o ddiddordeb yn y system reoli integredig troseddwyr gan wleidyddion cenedlaethol a gweision sifil, yn ogystal â chynnydd pwysig mewn cyllid. Ar yr un pryd, mynegodd ychydig o'r ymarferwyr prawf bryder bod y galwadau trwm a roddwyd

ar y rhai yn y categori sefydlog yn arbennig o anodd i rai grwpiau ac unigolion eu bodloni, ac roedd hyn felly yn eu rhoi mewn perygl o fethu.

YMARFER GWEITHREDOL

Rheolaeth leol

Cytunwyd yn gyffredinol bod y trefniadau rheoli lleol yn y system reoli integredig troseddwyr yn gweithio'n dda. Mae'r trefniadau rheoli lleol yn golygu bod yr heddlu a swyddogion y gwasanaeth prawf sy'n gweithio yn yr un tîm yn cael eu rheoli ar wahân (fel arfer gan ringyll ac uwch swyddog prawf, yn y drefn honno), hyd yn oed mewn swyddfeydd wedi eu cydleoli'n llawn, Dywedwyd bod hyn yn wir hyd yn oed pan oedd un o'r rheolwyr wedi ei leoli yn rhywle arall (fel oedd yn eithaf cyffredin), ymhell oddi wrth y staff rheng flaen. Y darlun cyffredinol a luniwyd oedd bod y ddua reolwr yn cadw mewn cysylltiad agos ac aml ('joined at the hip', fel y dywedodd un) ac, er bod anghytuno weithiau ynglŷn â pha gamau i'w cymryd, roedd unrhyw anghytuno fel arfer yn cael ei ddatrys yn gyflym ac mewn modd cyfeillgar trwy drafodaeth. Dywedwyd mai anaml y byddai'n rhaid uwchgyfeirio unrhyw anghytuno i reolwyr lefel uwch, er bod hyn ar gael pe bai angen.

Ar yr un pryd, roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn cytuno ei bod yn deg nodweddu rhai timau lleol fel rhai sydd wedi eu dominyddu gan yr heddlu ac eraill fel rhai sydd wedi eu dominyddu gan y gwasanaeth prawf: gallai hyn fod yn rhannol oherwydd lleoliad y tîm a'r rheolwyr, pa asiantaeth sydd â mwy o bersonél ac adnoddau wedi eu dyrannu i'r system reoli integredig troseddwyr, arferion gwaith lleol a diwylliannau sydd wedi tyfu dros amser, a/neu bersonoliaethau unigol rheolwyr.

Cydleoli

Fel y nodwyd uchod, pwysleisiwyd mai ffactor hwyluso allweddol ar gyfer gwaith rheoli integredig troseddwyr effeithiol yw rhyw fath o gydleoli, sydd yn helpu'r heddlu a staff y gwasanaeth prawf i ddod i adnabod ei gilydd yn dda a datblygu perthynas waith yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Disgrifiwyd cydleoli gan amlaf gan y rhai a gyfwelwyd fel ffurf ran-amser (neu 'hybrid'), gyda, er enghraifft, aelodau o'r naill asiantaeth yn gweithio yn swyddfeydd y llall am brynhawn neu ddua yr wythnos. (Roedd Rheolwr Rhaglen Rheoli Integredig Troseddwyr hefyd yn amcangyfrif yn gynnar yn 2024 bod tua 40% o dimau lleol 'wedi eu lleoli'n llawn' a 50% 'yn rhannol wedi eu cydleoli'.) Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y ddua fath o gydleoli yn effeithiol, er mewn rhai achosion nodwyd nad oedd cyfradd presenoldeb aelodau'r tîm a oedd yn ymweld bob amser yn dda.

Er bod cydleoli staff yr heddlu a staff y gwasanaeth prawf yn rhan-amser o leiaf yn gyffredin, roedd yn gymharol anarferol i staff o asiantaethau eraill hefyd rannu swyddfeydd gyda'r tîm rheoli integredig troseddwyr. Roedd hwn yn un o'r datblygiadau y dywedodd y rhai a gyfwelwyd yr hoffent ei weld fwyaf, gan wneud y safle'n debycach i 'ganolfan' aml-asiantaeth.

Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru dîm Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru (WISDOM), mewn rhai achosion wedi eu lleoli ar wahân i'r tîm rheoli integredig troseddwyr 'generig', ond maent yn aml yn rhannu swyddfeydd â hwy. Mewn rhai ardaloedd, hefyd, mae staff yn goruchwyllo achosion WISDOM ac achosion nad ydynt yn rhai WISDOM. Fodd bynnag, gan fod troseddwyr a oruchwylir dan WISDOM yn cael eu hasesu fel rhai gyda risg uchel o niwed, mae ymarferwyr yr heddlu a swyddogion prawf mwy profiadol

neu sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig yn ymdrin â hwy'n gyffredinol, ac yn tueddu i weithio'n arbennig o agos gyda'i gilydd. Weithiau mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu hystyried (ac yn gweld eu hunain) fel uned holol ar wahân. Yn wir, canfuom rywfaint o ddryswch ymhllith y rhai a gyfwelwyd, ac nid oedd rhai ohonynt yn gwybod bod WISDOM yn rhan o'r system reoli integredig troseddwyr a bod ei achosion yn achosion rheoli integredig troseddwyr yn y categori 'rhydd', i fod yn fanwl gywir.

Ar y cyfan, felly, mae cydleoli (boed yn llawn neu'n rhannol) yn cael ei ystyried yn un o elfennau mwyaf effeithiol y system reoli integredig troseddwyr – dyfarniad a rennir gan yr uwch reolwyr a gyfwelwyd gennym, a dywedodd un ohonynt fod ymdrechion gweithredol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i ehangu ei ddefnydd. Ar yr un pryd, cydnabuwyd ei fod yn arbennig o anodd sefydlu cydleoli mewn ardaloedd gwledig.

Y System Sefydlog - Hyblyg - Rhydd

Croesawyd y system sefydlog - hyblyg - rhydd, sef y newid amlycaf a gyflwynwyd o dan y diweddariad yn gyffredinol, gan y rhai a gyfwelwyd, er bod nifer fach wedi codi pryderon am agweddau ohoni.

Dywedwyd mai ei phrif fantais oedd y strwythur cymharol glir mae'n ei roi i waith rheoli integredig troseddwyr, yn dilyn cyfnod pan fu gwahaniaethau mawr rhwng timau lleol o ran y mathau o bobl a ddewiswyd ar gyfer goruchwyliaeth a sut yr ymgymherwyd â'r gwaith. Dywedodd ymarferwyr fod ganddynt fel grŵp bellach ddealltwriaeth well o nodau'r gwaith partneriaeth, y mathau o bobl y dylent ganolbwytio arnynt, a sut y dylent fynd ati i wneud y gwaith.

Ar yr un pryd, cawsom ein synnu i ddarganfod bod rywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â'r system sefydlog - hyblyg - rhydd o hyd. Er bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn deall y mein prawf i gynnwys troseddwyr yn y garfan sefydlog, cyfaddefodd sawl un - gan gynnwys mwy nag un rheolwr - i rywfaint o ddryswch ynglŷn â'r categoriâu hyblyg a rhydd.

Yn bwysicach fyth, mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â chynnwys (yn bennaf yn y categori hyblyg) pobl y gallai'r amodau goruchwyliau cymharol feichus o dan y system reoli integredig troseddwyr fod yn wrthgynhyrchiol. Yn benodol, honnwyd nad oedd y penderfyniad i roi pob achos 'Y2A' (pobl sy'n trosglwyddo o'r system ieuenciad i'r system oedolion) o dan oruchwyliaeth y system reoli integredig troseddwyr am o leiaf dri mis yn angenrheidiol i'r rhai heb gefndir o droseddu difrifol neu barhaus, er ei fod wedi ei fwriadu'n rhannol i sicrhau eu bod yn cael mynediad at wasanaethau lles, a'i fod o bosib yn wrthgynhyrchiol a gallai arwain at 'ehangu'r rhwyd' oherwydd y cosbau am beidio â chydymffurfio.

Pryder arall a godwyd gan nifer fach o'r rhai a gyfwelwyd oedd bod rhai pobl ar y system reoli integredig troseddwyr hefyd yn cael eu goruchwyliau neu eu monitro dan drefniadau arbenigol eraill megis MAPPA neu unedau troseddwyr rhyw – eto gyda risg o fod yn ormodiaeth yn ogystal â dyblygu diangen.

Yn olaf, gwnaed y pwynt gan rai staff goruchwyliau lleol, er bod y system sefydlog - hyblyg - rhydd yn gwneud synnwyr ar bapur, yn ymarferol nid oedd maint a chyfansoddiad y carfannau yn y categoriâu hynny bob amser yn cyd-fynd â'r adnoddau o ran staff, y sgiliau a'r profiad sydd ar gael, neu broffil y troseddwyr proffil troseddu lleol.

Cysylltiadau ac ymweliadau

Mae canllawiau gweithredu cenedlaethol yn nodi ei bod yn arfer da i'r garfan Sefydlog gael cynnig tri chyswllt yr wythnos. Yn gyffredinol, caiff hyn ei drin fel gofyniad sylfaenol: defnyddir apwyntiadau a gynigir ac a gedwir fel dangosyddion perfformiad, a gosodir sancsiynau am fethu â'u cadw. Dywedwyd, ar adegau pan oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfranogwyr neu fod eu hymddygiad yn peri pryder, y gellid rhagori'n sylweddol ar y nifer hwn. Dywedwyd, ar adegau pan mae angen cymorth ychwanegol ar y rhai yn y categori rhydd neu os yw eu hymddygiad yn peri pryder, y gall y nifer gynyddu'n sylweddol. Ar y llaw arall, pan ystyriwyd nad oedd angen gwaith dwys neu nifer o apwyntiadau swyddfa ar bobl, roedd ymdrechion yn aml yn cael eu gwneud i sicrhau'r nifer ofynnol o gysylltiadau mewn ffordd lai beichus, er enghraifft trwy ymweliadau cartref neu gyfarfodydd mewn mannau cyhoeddus, cyfarfodydd â phartner asiantaethau, trafodaethau ffôn neu ryngrywyd, ac ati. Dywedwyd bod cysylltiadau o'r fath - hyd yn oed llawer o'r rhai a wnaed gan yr heddlu - yn 'fwynach' neu'n 'sgafnach' o ran dwyster ac yn canolbwytio llai ar ymddygiad troseddol na chyfarfodydd swyddfa.

Fel y gellid disgwyl, roedd rhai unigolion yn y categori rhydd, yn enwedig y rhai a oruchwylir fel achosion WISDOM, yn cael cyswllt arbennig o aml a dwys oherwydd pryderon ynglŷn â risg. Ar y pegwn arall, cymerwyd gofal i beidio â 'gorlwytho' rhai o'r cyfranogwyr iau, yr oedd ymgysylltu â hwy yn gyffredinol yn fwy anodd, ac nad oedd eu ffordd o fyw yn cyd-fynd yn hawdd ag ymweliadau swyddfa aml.

Yn olaf, pwysleisiwyd gan y rhai a gyfwelwyd o'r ddwy asiantaeth, er bod pwyslais cryf swyddogion heddlu ar y tîm rheoli integredig troseddwyr yn anochel ar geisio sicrhau nad yw'r bobl ar y system reoli integredig troseddwyr yn cyflawni troseddau newydd, mae rhai hefyd yn aml yn weithgar iawn o ran eu helpu i gael mynediad at wasanaethau, gwneud a chadw apwyntiadau, ac yn wir eu cynnwys mewn sgyrsiau difrifol am ymdrechion i 'newid eu bywydau'. Mewn rhai achosion, honnwyd bod hyn wedi helpu i leddfu safbwytiau gelyniaethus hir sefydlog am yr heddlu ac wedi arwain at berthynas fwy cynhyrchiol.

Darparu gwasanaethau

Un o'r syniadau gwreiddiol y tu ôl i system reoli integredig troseddwyr oedd y byddai'r cyfranogwyr yn cael mynediad â blaenoriaeth i wasanaethau cymorth megis tai, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, ac ati i ddiwallu eu hanghenion, a thrwy hynny gynyddu eu siawns o adsefydlu yn ogystal â gwella eu cydymffurfiaeth a'u hymgysylltu â goruchwylwyr. . Fodd bynnag, nid yw hon yn ddyletswydd statudol nac fel arfer wedi ei chynnwys mewn contractau, ac mae'n ymddangos bod y graddau y mae'n digwydd yn amrywio'n fawr. Mewn rhai ardaloedd, dywedwyd bod perthynas agos rhwng staff y system reoli integredig troseddwyr a darparwyr gwasanaethau lleol (a atgyfnerthwyd gan gydleoli'n rhan-amser neu gyfarfodydd amlasiantaethol rheolaidd) wedi darbwyllo darparwyr y gallai ymateb yn gyflym i anghenion pobl ar system reoli integredig troseddwyr fod o fudd mawr. Mewn eraill, fodd bynnag, adroddwyd mai anaml y byddent yn cael eu trin yn wahanol i gleientiaid eraill - roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag iechyd meddwl.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, rhoddwyd llawer o engrifftiau hefyd o swyddogion heddlu sy'n gweithio yn y tîm rheoli integredig troseddwyr yn mynd allan o'u ffordd i gynorthwyo neu weithredu fel eiriolwyr i unigolion gael mynediad cyflymach at wasanaethau.

Ymyriadau

Er mai troseddwyr risg uchel a mynch (fel y mwyafrif o'r rhai ar y system reoli integredig troseddwyr) yw targed rhaglenni achrededig i raddau helaeth, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd mai anaml y maent yn cyfeirio eu cleientiaid i ymyriadau dwys o'r fath. Mae hyn oherwydd eu bod yn teimlo bod risg uchel y byddant yn aildroseddu neu'n torri eu hamodau naill ai wrth ddisgwyl i'r rhaglen ddechrau neu yn ystod y rhaglen. Yn lle hynny, dywedodd sawl un y byddai'n well ganddynt addasu rhaglenni presennol ac ymyriadau byrrach i greu eu fersiynau eu hunain ar gyfer darpariaeth un-i-un. Roedd eraill yn dadlau nad oedd ymyriadau ffurfiol yn aml yn ddeniadol i gyfranogwyr y system reoli integredig troseddwyr, a'u bod yn ymateb yn well i weithgareddau gweddol syml y tu allan i amgylchedd y swyddfa – er enghraifft, teithiau cerdded yn y mynyddoedd neu deithiau pysgota – pan oedd yn haws datblygu perthynas o ymddiriedaeth a'u darbwyllo i ymgymryd â gwaith mwy dwys ar adegau priodol.

Cydymffurfio a thorri amodau

Efallai mai maes gwaith rheoli integredig troseddwyr sydd fwyaf tebygol o weld anghytundeb sylweddol rhwng yr heddlu a phartneriaid yn y gwasanaeth prawf yw sut i ymateb i fethiant cyfranogwyr i gydymffurfio ag amodau, neu i bryderon neu dystiolaeth eu bod yn cyflawni troseddau newydd. Y darlun cyffredinol a beintiwyd gan y rhai a gyfwelwyd oedd bod swyddogion yr heddlu yn fwy tueddol o ddadlau dros weithredu cryf, gan gynnwys torri amodau ac erlyn, tra bod rheolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf yn aml yn fwy parod i fod yn hyblyg ac ystyried dulliau amgen – fel y dywedodd un, mae gan ymarferwyr o'r ddau sefydliad 'feddylfryd' gwahanol yn ei hanfod. Fodd bynnag, roedd hefyd yn amlwg bod hwn yn ddarlun rhy syml. Cawsom enghreifftiau o swyddogion yr heddlu yn mynd allan o'u ffordd i ddarbwyllo cydweithwyr neu lysoedd i fod yn fwy trugarog, ar y sail y byddai torri amodau neu ddedfryd fer arall o garchar yn dadwneud y cynnydd yr oedd unigolyn ar y system reoli integredig troseddwyr wedi ei wneud a bod osgoi eu hadalw yn strategaeth tymor hwy gwell weithiau.

Mae'r drafodaeth uchod hefyd yn dangos pwnt mwy cyffredinol sy'n deillio o'r ymchwil, sef ei bod yn ymddangos bod hyblygrwydd a pharodrwydd i ystyried dulliau ansafonol wedi dod yn nodweddion gwahaniaethol o waith y system reoli integredig troseddwyr, wedi eu hannog a'u cefnogi i ryw raddau gan reolwyr o'r ddau wasanaeth yn gweithio ar y cyd.

DATA A PHERFFORMIAD

Gwnaeth rhai o'r rhai a gyfwelwyd sylwadau am welliannau ar ôl y diweddariad yn ansawdd y data am y system reoli integredig troseddwyr yng Nghymru, yn ogystal â chyflwyno elfennau o fesur perfformiad.

Nodwyd bod cyflwr blaenorol gwybodaeth ystadegol am y system reoli integredig troseddwyr wedi bod yn wael iawn, gyda llawer o ardaloedd ddim hyd yn oed yn gallu darparu data cywir ar nifer yr achosion dan oruchwyliaeth weithredol, heb sôn am y problemau oedd gan y bobl ar y system reoli integredig troseddwyr a sut roeddent wedi cael eu datrys. Ar ôl y diweddariad, didolwyd yr holl gofnodion er mwyn dileu hen achosion a chynhyrchu cofnodion mwy cyson a chyflawn o achosion gweithredol. Mae 'dangosfwrdd' hefyd wedi ei greu sy'n caniatáu mynediad cyflym at wybodaeth fanwl am ddemograffeg ac anghenion y boblogaeth ar y system

reoli integredig troseddwyr mewn unrhyw ardal benodol. Er bod y datblygiadau hyn wedi eu canmol yn gyffredinol, tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod y ddwy brif ffynhonnell wybodaeth am unigolion - system Niche yr heddlu a Delius y Gwasanaeth Prawf - yn parhau i fod ar wahân ac na allant siarad â'i gilydd, gan arwain at rywfaint o oedi wrth rannu data rhwng y gwasanaethau. Dadleuwyd gan rai mai'r ateb hirdymor yw system reoli integredig troseddwyr bwrpasol sy'n hygrych i'r holl staff perthnasol.

Yn ogystal, roedd rheolwyr yn gyffredinol yn croesawu dyfodiad dangosyddion perfformiad ar gyfer y system reoli integredig troseddwyr a nodwyd nad oedd casglu data ar eu cyfer yn waith mor llethol nac yn cymryd cymaint o amser. Fodd bynnag, dywedwyd bod rhai o'r targedau - yn enwedig y targedau'n ymwneud â thai a chyflogaeth - yn afrealistig o uchel, ac ymhellach eu bod yn adlewyrchu amodau economaidd-gymdeithasol ym mhob ardal yn hytrach na'r camau a gymerwyd gan y system reoli integredig troseddwyr.

YMATEBION AC YMGYSYLLTIAD DEFNYDDWYR GWASANAETH

Ni wnaethom gyfweld pobl ar y system reoli integredig troseddwyr, felly ni allwn wneud mwy nag adrodd ar yr hyn a ddywedodd staff am eu hymatebion i oruchwyliaeth. Y neges gyffredinol o'r cyfweliadau oedd bod yr ymatebion yn amrywio'n fawr, o groesawu'r sylw ychwanegol a ddaw yn sgil y system reoli integredig troseddwyr i wrthod ymgysylltu'n llwyr.

Yn fras, dywedwyd bod pobl hŷn yn fwy tebygol na phobl iau o ymateb yn gadarnhaol. Yn wir, rhoddyd engreiffiau o droseddwyr cyson a oedd wedi bod ar brawf lawer gwaith heb ymgysylltu o ddifrif, oedd datblygu perthynas agos ac ymddiriedus gyda'r Gwasanaeth Prawf a swyddogion yr heddlu o ganlyniad i'r cyswllt aml ac amrywiaeth y gweithgareddau mae'r system reoli integredig troseddwyr yn eu cynnwys.

Ar y llaw arall, dywedwyd bod llawer o'r rhai dan oruchwyliaeth, yn enwedig y rhai iau, yn gweld y rhwymedigaethau ychwanegol yn feichus ac yn ennyn ymateb negyddol ganddynt. Yn wir, soniwyd bod rhai grwpiau – gan gynnwys pobl ddigartref, pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau difrifol a phobl ifanc â chysylltiadau gangiau – yn debygol o fod yn arbennig o anodd ymgysylltu â hwy. At hynny, cydnabuwyd bod pobl sydd wedi dod i gysylltiad cyson â'r system gyfiawnder troseddol, beth bynnag eu hoedran neu hanes o droseddu, yn annhebygol o ymateb yn gadarnhaol i'r newyddion y byddant yn cael eu goruchwylion'n rhannol gan swyddog yr heddlu.

Soniodd y cyfranogwyr am nifer o strategaethau a ddefnyddiwyd i geisio goresgyn yr heriau hyn. Yn gyntaf, fel y nodwyd uchod, gwnaed ymdrechion i gadw apwyntiadau safonol gyda'r swyddfa prawf i'r lleiaf posib, gyda chysylltiadau ac ymwelliadau'n cael eu cynnal gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o ffyrdd y tu allan i'r swyddfa. O ran grwpiau penodol 'anodd ymgysylltu' â hwy, dywedwyd er enghraift y gellid defnyddio cysylltiadau'r system reoli integredig troseddwyr â gweithwyr a gwasanaethau cyffuriau i ddarbwyllo camddefnyddwyr sylweddau i ddod, a bod rhai ardaloedd yn treialu'r defnydd o grŵp o reolwyr troseddwyr wedi eu hyfforddi'n arbennig i weithio gyda phobl ifanc sydd â chysylltiadau â gangiau. Yn fwy cyffredinol, anogwyd staff y system reoli integredig troseddwyr i ymateb i bobl fel unigolion, gan ddod i wybod mwy am eu bywydau bob dydd a'u diddordebau, a chwrdd ag aelodau eraill o'r teulu. Unwaith eto, mae hyblygrwydd i'w weld yn elfen allweddol o'u dull.

Yn olaf, dywedwyd bod y broblem o elyniaeth i'r syniad o oruchwyliaeth gan yr heddlu yn cael ei lleddfu'n rhannol gan ymdrechion ar ran y swyddogion i ddod i adnabod pobl ar y system reoli integredig troseddwyr fel unigolion, yn ogystal â thrwy ddangos eu bod yn barod i fynd allan o'u ffordd i gynnig cymorth ymarferol. Rhoddwyd enghreifftiau o bobl yn newid eu barn oherwydd gweithredoedd syml o garedigrwydd megis cael lifft adref neu gymorth gyda mynediad at ryw fath o les.

CASGLIADAU

Gellir crynhoi'r 'penawdau' sy'n deillio o'r ymchwil fel a ganlyn:

1. Roedd gan fwyafrif helaeth y rheolwyr lleol a'r staff a gyfwelwyd farn gadarnhaol iawn am y system reoli integredig troseddwyr yn gyffredinol ac roeddent yn fodlon ar y cyfan â'r newidiadau a ddaeth yn sgil y diweddariad.
2. Nodweddion y system reoli integredig troseddwyr a dynnwyd sylw atynt fwyaf fel rhai allweddol i'w effeithiolrwydd oedd gweithio mewn partneriaeth agos a rhannu gwybodaeth yn amserol, gan arwain at ymatebion cyflymach a mwy effeithiol i broblemau neu bryderon newydd. Ystyriwyd bod cydleoli (boed yn llawn-amser neu'n rhan-amser) yn arbennig o ddefnyddiol yn hyn o beth.
3. Mae'r system reoli integredig troseddwyr yn rhoi mwy o amser a chyfle i ymarferwyr prawf na gwaith cyffredinol i ddefnyddio dull hyblyg ac unigol o oruchwyliaeth, gan ganiatáu iddynt fod yn fwy creadigol ac arloesol mewn ymdrechion i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ac wrth gynllunio ymyriadau a gweithgareddau. Dywedwyd bod hyn yn cynyddu'r siawns o ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda'r bobl niferus ar y system reoli integredig troseddwyr a oedd â hanes o ymgysylltu gwael â'r awdurdodau. Roedd swyddogion yr heddlu, hefyd, yn aml yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o oresgyn yr elyniaeth gychwynnol.
4. Adroddwyd hefyd bod mwy o hyblygrwydd yn tueddu i gael ei ddefnyddio mewn ymateb i fethiant i gydymffurfio ag amodau. Yn aml, roedd rheolwyr y gwasanaeth prawf a'r heddlu yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â pha gamau i'w cymryd, ac er bod yr heddlu yn gyffredinol yn llymach eu hagwedd, rhoddwyd enghreifftiau hefyd o swyddogion yr heddlu yn eirioli yn erbyn torri amodau neu erlyn cyfranogwyr penodol (hyd yn oed, ar adegau, pan oeddent wedi cyflawni mân droseddau) er mwyn osgoi tanseilio cynnydd yr unigolion hynny.
5. Yn gyffredinol, roedd pawb yn croesawu'r system sefydlog - hyblyg - rhydd o ddewis a goruchwyliaeth carfannau. Ystyriwyd ei fod yn sicrhau cydwysedd canolog-lleol rhesymol, gan sicrhau mwy o gysondeb rhwng ardaloedd tra'n parhau i ganiatáu hyblygrwydd i adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddryswnch yn parhau ynglŷn â'r rheolau sy'n llywodraethu'r systemau hyblyg a rhydd.
6. Roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth – yn enwedig pobl iau mewn carfannau sefydlog – yn ei chael hi'n anodd iawn bodloni gofynion goruchwyliaeth y system reoli integredig troseddwyr, gan eu rhoi mewn perygl mawr o ddychwelyd i'r ddalfa hyd yn oed os nad oeddent yn troseddu. Er bod staff yn aml yn lleihau'r risg trwy ddefnyddio disgrifiwn neu ddod o hyd i ffyrdd llai beichus o gyflawni'r lefelau cyswilt gofynnol,

roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn credu bod y cyfraddau torri amodau dilynol yn parhau'n rhy uchel.

7. Mewn rhai ardaloedd, mae cysylltiadau agos (wedi eu cryfhau trwy gyfathrebu rheolaidd mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth) rhwng timau rheoli integredig troseddwyr ac asiantaethau lles yn arwain at gyfranogwyr y system reoli integredig troseddwyr yn cael mynediad cyflymach at wasanaethau. Gall hyn fod yn gymhelliant cryf iddynt ymgysylltu'n adeiladol â goruchwylwyr. Mewn mannau eraill fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion staff y system reoli integredig troseddwyr, nid ydynt yn cael unrhyw fath o flaenoriaeth gan asiantaethau eraill, sy'n golygu y gallai buddion allweddol posib y system reoli integredig troseddwyr gael eu colli.
8. Mae ardaloedd gwledig yn wynebu nifer o heriau sylweddol, gan gynnwys problemau teithio i staff a defnyddwyr gwasanaeth, sy'n cael eu cynyddu gan y gofynion cyswllt ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r system reoli integredig troseddwyr. Maent hefyd yn tueddu i fod â phatrymau troseddu gwahanol - ac felly blaenoriaethau gwahanol - o gymharu ag ardaloedd trefol, gan arwain rhai timau i deimlo nad y system sefydlog - hyblyg - rhydd yw'r system fwyaf priodol i'w hamgylchiadau lleol.
9. Roedd y rhai a gyfwelwyd, yn enwedig rheolwyr, yn croesawu gwelliannau yng nghyflawnder a chywirdeb cofnodi data'r system reoli integredig troseddwyr ers y diweddariad. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno dangosyddion perfformiad, nad oeddent yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn feichus nac yn fygythiol. Fodd bynnag, roedd rhai yn amau gwerth cymharu mesurau cyflogaeth a thai rhwng ardaloedd, gan eu bod yn fwy tebygol o adlewyrchu amodau economaidd-gymdeithasol lleol na chanlyniadau gweithgarwch gan dimau rheoli integredig troseddwyr.
10. Yn seiliedig ar ganfyddiadau staff (ni wnaethom gyfweld â chyfranogwyr), mae'r darlun cyffredinol sy'n deillio o ymatebion defnyddwyr gwasanaeth i'r system reoli integredig troseddwyr yn gymysg iawn, yn amrywio o elyniaeth i ymgysylltiad cryf. Dywedwyd mai pobl iau, y digartref, a'r rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau oedd yn aml yn ymwrthod mwy neu'n anodd ymgysylltu â hwy, tra bod pobl hŷn (gan gynnwys rhai â hanes o elyniaeth i awdurdod) yn tueddu i ymateb yn fwy ffafriol i'r sylw a'r cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd bod agweddau yn ddeinamig, gyda newidiadau cadarnhaol dros amser yn eithaf cyffredin wrth i gyfranogwyr ddod i adnabod eu goruchwylwyr (y gwasanaeth prawf a'r heddlu) yn well 'fel pobl'.

Yn gyffredinol, rydym yn dod i'r casgliad bod y system reoli integredig troseddwyr mewn cyflwr llawer iachach nag yr oedd cyn y diweddariad, yn enwedig o ran cyllid ac adnoddau staff, eglurder pwrras a ffyrdd disgwyliedig o weithio, ac ansawdd y wybodaeth am ei gweithgareddau a'i chanlyniadau.

Rydym hefyd yn dod i'r casgliad bod cydleoli yn ffactor pwysig yn ei heffeithiolrwydd, a bod ymdrechion i'w chyflwyno ar ryw ffurf (gan gynnwys cydleoli 'hybrid' neu 'ran-amser', megis neilltuo desgiau at ddefnydd cyfnodol ar gyfer asiantaethau partner) yn haeddu blaenoriaeth. Byddem yn ychwanegu bod llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn cytuno y byddai'n fuddiol gwahodd mwy o asiantaethau, ac nid yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn unig, i ymuno â swyddfeydd sydd wedi eu cydleoli. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y gall cydleoli o unrhyw fath fod yn arbennig o heriol mewn ardaloedd gwledig.

